# CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o’r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 15 Mai 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast (Cadeirydd), Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG), Pennaeth Cyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid (RW), Cynllunio a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (AL), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Craffu (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Jeanette Chamberlain-Jones a/ac Barry Mellor

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd cysylltiad.

## 3 PENODI CADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gwahoddodd y Cadeirydd oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Pete Prendergast enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2018/2019. Cynigiodd y Cynghorydd Martyn Holland i’r Cynghorydd Peter Scott gael ei ethol yn Gadeirydd gan amlinellu’r profiad a’r rhinweddau y byddai’n gynnig.

Roedd y Cynghorydd Christine Marston yn eilio’r cynnig.

Ni fu unrhyw enwebiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais drwy godi dwylo, cafodd y Cynghorydd Peter Scott ei ethol yn unfrydol i fod yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/2019.

Rhoddodd y Cadeirydd oedd yn ymddeol araith fer a bu’n adlewyrchu ar ei gyfnod fel Cadeirydd yn ystod y deuddeng mis diwethaf.

Diolchodd i'r Cynghorydd Peter Scott a'i wraig Sue am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion a'r staff am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Eleri Woolford (Aelod Rheolwr Cefnogi a Datblygu), Sue License (Cymhorthydd Personol i Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd), a Sarah Dixon (Cydlynydd Cyfoethogi'r Cwricwlwm) am eu holl waith a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

Roedd y Cadeirydd oedd yn ymddeol wedi codi cyfanswm o £61,500 i'w rannu gan y ddwy elusen a ddewiswyd:

- .
  Hosbis Sant Cyndeyrn, a
- Bad Achub y Rhyl.

Yn anffodus nid oedd cynrychiolwyr o Fad Achub y Rhyl yn gallu mynychu'r cyfarfod.

Derbyniodd Laura Parry y siec ar ran Hosbis Sant Cyndeyrn.

Roedd y Cadeirydd oedd yn ymddeol yn dymuno'n dda i'r Cadeirydd newydd ar gyfer y dyfodol a chyflwynodd y Gadwyn Swydd iddo, yna cwblhaodd ei Ddatganiad Derbyn Swydd.

Talodd y Cadeirydd newydd deyrnged am y gwaith a wnaed gan y Cadeirydd oedd yn ymddeol a chyflwynodd Fathodyn Cadeirydd y Gorffennol iddo. Hefyd, diolchodd i Gydymaith y Cadeirydd oedd yn ymddeol, Mr Bill Tasker am ei holl waith caled drwy gydol y flwyddyn yn cefnogi'r Cadeirydd.

Enwodd y Cadeirydd newydd ei wraig, Mrs Sue Scott fel ei gydymaith.

Dywedodd y Cadeirydd newydd mai'r elusen a ddewiswyd ganddo oedd Hosbis Sant Cyndeyrn.

## 4 PENODI IS-GADEIRYDD Y CYNGOR SIR

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer penodi Is-Gadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fel Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2018/2019. Cyfeiriodd at brofiad eang y Cynghorydd Davies.

Eiliodd y Cynghorydd Ann Davies yr enwebiad.

Ni fu unrhyw enwebiadau pellach, ac yn dilyn pleidlais drwy godi dwylo, cafodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies ei ethol yn unfrydol i fod yn Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2018/2019.

Arwisgodd y Cadeirydd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gyda'r Gadwyn Swydd Is-Gadeirydd ac yna cwblhaodd ei Ddatganiad Derbyn y Swydd.

Enwodd yr Is-Gadeirydd newydd ei wraig, Nesta Davies fel ei gydymaith.

Bu i’r Arweinydd, Arweinwyr Grŵp ac Aelodau gydnabod gwaith y Cadeirydd sy'n ymddeol dros y deuddeng mis diwethaf a llongyfarch y Cynghorwyr Peter Scott a Meirick Lloyd Davies ar gael eu hethol yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd yn y drefn honno.

**Ar y pwynt hwn (10.30 a.m.) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 10.45 a.m.**

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim eitemau brys.

Ar y pwynt hwn, cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler ddeiseb i’r Cadeirydd ar ran Cariad Cards, Dinbych.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor gwestiwn:

Beth mae’r Cyngor yn ei wneud i sicrhau parhad gofal i bobl Sir Ddinbych sy’n derbyn gofal gan Allied Health Care yn dilyn y newyddion bod y cwmni mewn anhawster ariannol?

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth y Cyngor:

Roedd Allied Health Care, sy’n darparu gofal ar draws Cymru wedi ymgeisio am Drefniant Gwirfoddol ar ran y Cwmni i ailstrwythuro ei ddyledion. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymgynnull Grŵp Cynllunio Perthynol i Iechyd yn cynnwys cynrychiolwyr o’r GIG a Gofal Cymdeithasol Byddai’r Grŵp Cynllunio yn cysylltu â phob Awdurdod Lleol ar draws Gogledd Cymru i gael cefnogaeth. Roedd Gwasanaethau Cymorth Cymunedol o fewn Sir Ddinbych yn ymwneud â monitro’r sefyllfa. Gwnaed cysylltiad a chafwyd sicrwydd ei fod yn “fusnes fel arfer”. Roedd y risg yn gymedrol ac roedd yna ddarpariaeth gofal mewnol ynghyd â gofal amgen. Roedd Sir Ddinbych yn gweithio’n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Allied Health Care. Byddai cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddiweddarach heddiw (15.05.2018) a byddai yna fwy o wybodaeth yn dilyn hynny.

## 6 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2018.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2018 fel cofnod cywir a’u llofnodi gan y Cadeirydd.*

## 7 AMSERLEN CDLL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i geisio cymeradwyaeth i newidiadau i'r amserlen ar gyfer cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyngor ar 5 Rhagfyr 2017, cafodd yr Adroddiad Adolygu CDLl a'r Cytundeb Cyflawni CDLl Newydd eu cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2017. Derbyniwyd gohebiaeth gan Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, yn gwahodd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i baratoi Cydgynllun Datblygu Lleol. Roedd y cyd-ymateb gan y ddau Gyngor wedi nodi'r dymuniad i CDLlau unigol gael eu cynhyrchu.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y gallai'r ddau Gyngor ddatblygu eu hadolygiad CDLl yn unigol.

Roedd y broses hon wedi arwain at oedi yn yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLl newydd, oedd yn ffurfio rhan o'r Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn:*

- *cymeradwyo amserlen Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (ynghlwm i'r adroddiad fel Atodiad 2).*
- *awdurdodi'r Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i gytuno ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych.*
- *cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

## 8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU CRAFFU

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Irving Adroddiad y Pwyllgor Craffu ar eu gweithgareddau yn ystod 2017/18 (dosbarthwyd yn flaenorol) i Aelodau ei ystyried.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol i gydymffurfio ag Adran 7.4.4 o Gyfansoddiad y Cyngor oedd yn nodi bod yn rhaid i Bwyllgorau Craffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn am eu gwaith gydag argymhellion ar gyfer eu rhaglenni gwaith at y dyfodol ac ar ddulliau gweithio diwygiedig os yw hynny'n briodol.

Yr Adroddiad Blynyddol oedd y cyntaf ar ei weithgareddau yn ystod tymor cyfredol y Cyngor.

Oherwydd y sefydlwyd Cyngor newydd ym Mai 2017, bu'r flwyddyn 2017/18 yn gyfnod o sefydlu a dysgu. Gyda chytundeb y blaenoriaethau corfforaethol newydd ynghyd â mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022 byddai'r Pwyllgor Craffu nawr yn dechrau monitro darpariaeth yn rheolaidd.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol hefyd yn dweud wrth drigolion Sir Ddinbych sut y gallant gymryd rhan a chyfrannu at y broses archwilio.

Roedd y posibilrwydd o sefydlu trefniadau craffu ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i graffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei archwilio. Byddai'n rhaid i Gyngor Llawn Conwy a Sir Ddinbych wneud y penderfyniad pa un ai i sefydlu'r Cyd-Bwyllgor Craffu. Byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Diolchodd y Cynghorydd Hugh Irving i'r Cydlynydd Craffu, Rhian Evans am ei chefnogaeth a'i chymorth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn ystyried ac yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgorau Craffu 2017/18*

**9 AMSERLEN Y PWYLLGOR AR GYFER 2019 AC ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol yr adroddiad (dosbarthwyd yn flaenorol) i alluogi Aelodau i gymeradwyo amserlen ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2019.

Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2019 yn unol â phenderfyniad y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis er mwyn galluogi cadarnhau mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

Cafwyd trafodaeth gyffredinol a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mynegodd y Cynghorydd Paul Penlington ei siom i nodi nad oedd dim cyfarfodydd hwyr yn y prynhawn na min nos wedi eu trefnu.
  Dywedwyd wrth y Cynghorydd Penlington ar ddechrau'r tymor diwethaf, y consensws oedd i gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd. Byddai holiadur yn cael ei anfon at Aelodau yn y misoedd i ddod a gellir newid yr amserlen os mai'r consensws oedd newid amseroedd y cyfarfodydd.
- Cadarnhawyd y gall Is-Gadeirydd y Cyngor fod yn aelod o nifer o Bwyllgorau yn y dyfodol, ond ni fyddai angen bod yn aelod o Llywodraethu Corfforaethol fel yn y gorffennol.
- Codwyd y mater o gyfarfodydd Pwyllgor yn gwrthdaro â chyfarfodydd a gynhelir gan gyrff allanol yn achlysurol.
- Cytunwyd i ailbenodi'r Cadeirydd presennol ac aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y flwyddyn 2018/19.

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i'w gydweithiwr Kath Jones (Gweinyddwr Pwyllgorau) am baratoi'r amserlen a chysylltu gyda swyddogion gan fod angen trefnu'n ofalus iawn.

Diolchodd yr Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol ac Aelodau eraill i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'i dîm am eu holl ymdrech a gwaith caled.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn:*

*(i) Cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2019*

*(ii) Ailbenodi cadeirydd ac aelodaeth bresennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19, yn amodol ar unrhyw newidiadau a hysbyswyd gan y Grwpiau; ac*

*(iii) Ystyried cydbwysedd gwleidyddol y Pwyllgorau.*

## 10 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

(i) Mae'r Cyngor hwn yn nodi:
  a. Bod Grantiau Gwisg Ysgol wedi'u darparu i blant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig wrth iddynt ddechrau ym Mlwyddyn 7.
  b. Bod gwerth y Grant yn £105 i bob disgybl.
  c. Bod 156 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych wedi derbyn y Grant hwn yn 2017/18, ac ar gyfartaledd mae 166 o ddisgyblion y flwyddyn wedi'i dderbyn ers 2009/10.
  d. Gwerth y grant gwisg ysgol hwn ar gyfer CSDd y llynedd (2017/18) oedd £16,380.

(ii) Mae'r Cyngor hwn yn condemnio cynlluniau Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y Grant Gwisg Ysgol.

(iii) Mae'r Cyngor hwn yn credu bod cyhoeddiadau heb eu cynllunio na'u hystyried yn creu ansicrwydd, ac y bydd yn rhaid i CSDd gyllidebu yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ac nid yn ôl sicrwydd amwys y bydd math arall o gyllid yn lle'r Grant.

(iv) Mae'r Cyngor yn ceisio eglurhad brys gan Lywodraeth Cymru o ran pa gyllid newydd fydd yn cael ei roi ar waith yn lle'r Grant Gwisg Ysgol, ac amserlen glir yn nodi pryd y dylai'r Cyngor ddisgwyl cael y cyllid hwn.

Eiliodd y Cynghorydd Arwel Roberts y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Huw Jones.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Lansiwyd cyfnewid gwisg ysgol yn y flwyddyn olaf yn y Rhyl ac roedd ar fin cael ei lansio yn Rhuthun.
- Dywedwyd nad oedd yn bolisi'r Cyngor i gael gwisg ysgol ond i bob ysgol unigol gael polisi gwisg ysgol.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid y derbyniwyd gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru yn gofyn am farn i gadarnhau sut i fynd i'r afael â gostyngiad yn y grant amddifadedd disgyblion a'r ffordd orau o wneud hynny er mwyn i arian fod ar gael ar gyfer tymor mis Medi.

Roedd y Cynghorydd Graham Timms yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig ond dywedodd nad oedd yn cefnogi paragraff (ii) fel yr oedd wedi'i eirio ac y byddai'n well ganddo i'r gair "condemnio" gael ei newid i "anfodlon". Cytunodd y cynigydd, y Cynghorydd Huw Jones ac eilydd y Rhybudd o Gynnig i'r newid yn y geiriad.

Yn dilyn pleidlais unfrydol o blaid y Rhybudd o Gynnig:

***PENDERFYNWYD*** *bod:*

*(i) y Cyngor hwn yn nodi:*
   *a. Bod Grantiau Gwisg Ysgol wedi'u darparu i blant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig wrth iddynt ddechrau ym Mlwyddyn 7.*
   *b. Bod gwerth y Grant yn £105 i bob disgybl.*
   *c. bod 156 o ddisgyblion yn Sir Ddinbych wedi derbyn y Grant hwn yn 2017/18, ac ar gyfartaledd mae 166 o ddisgyblion y flwyddyn wedi'i dderbyn ers 2009/10.*
   *d. Gwerth y grant gwisg ysgol hwn ar gyfer CSDd y llynedd (2017/18) oedd £16,380.*

*(ii) Mae'r Cyngor hwn yn anfodlon gyda chynlluniau Llywodraeth Cymru i gael gwared ar y Grant Gwisg Ysgol.*

*(iii) Mae'r Cyngor hwn yn credu bod cyhoeddiadau heb eu cynllunio na'u hystyried yn creu ansicrwydd, ac y bydd yn rhaid i CSDd gyllidebu yn ôl yr wybodaeth sydd ar gael ac nid yn ôl sicrwydd amwys y bydd math arall o gyllid yn lle'r Grant.*

*(iv) Mae'r Cyngor yn ceisio eglurhad brys gan Lywodraeth Cymru o ran pa gyllid newydd fydd yn cael ei roi ar waith yn lle'r Grant Gwisg Ysgol, ac amserlen glir yn nodi pryd y dylai'r Cyngor ddisgwyl cael y cyllid hwn.*

## 11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Glenn Swingler y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Gyngor Sir Ddinbych i ddarparu cynnyrch glanweithiol merched am ddim i ysgolion yn Sir Ddinbych, i sicrhau bod merched yn gallu eu derbyn mewn modd sy'n parchu eu hurddas a'u hannibyniaeth.

Roedd ymchwil wedi dangos bod merched oedd yn methu fforddio cynnyrch glanweithiol yn gyndyn i chwarae gyda ffrindiau yn ystod eu mislif ac yn llai tebygol o ymuno mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden gan gynnwys nofio. Nid oedd rhai merched yn mynd i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn a oedd yn cael ôl-effaith ar eu teulu gan y gallent wynebu cosb ariannol.

Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn eilio'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Glenn Swingler.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams i'r geiriad gael ei newid o "... i ddarparu cynnyrch glanweithiol merched..."
  i "...i ymchwilio i gynnyrch glanweithiol merched..." a chytunwyd gan yr aelodau.
- Byddai angen cadarnhau'r gofyniad a'r gost a lle byddai arian ar gael.
- Sgwrs agored gyda'r gwneuthurwyr cynnyrch glanweithiol i weld pa gymorth y gallent gynnig i holl ysgolion yn y sir, ac eto, y gost.

Awgrymodd y Cynghorydd Joan Butterfield newid i'r Rhybudd o Gynnig a fyddai'n dod ag adroddiad yn ôl i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol gyda'r costau a hefyd adroddiad ar y drafodaeth gyda gwneuthurwyr y cynnyrch.  Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Pat Jones.

Ar y pwynt hwn, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd nad oedd y Rhybudd o Gynnig yn ymwneud â swyddogaeth y Cyngor ond swyddogaeth weithredol ac felly roedd union benderfyniad i wneud hyn ai peidio yn dod o dan ran weithredol y cyngor.  Gallai'r Cyngor ofyn i'r Cabinet wneud rhywbeth a hefyd gofyn i'r Pwyllgor Craffu edrych ar y mater hwn.

Roedd mater arall a godwyd yn ymwneud â'r ffaith bod yr amserlen yn dri mis, fyddai'n golygu y byddai'n mynd i'r pwyllgor gweithredol ym mis Medi.

Byddai'r newid i eiriad y Rhybudd o Gynnig fel a ganlyn:

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd y dylai swyddogion ddatblygu adroddiad manwl i'r Cabinet ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Medi ynglŷn â faint o angen oedd yna am gynnyrch glanweithiol merched am ddim mewn ysgolion a'r costau i gynnwys y drafodaeth gyda'r gwneuthurwyr perthnasol ynglŷn â'r gefnogaeth y gallent ei chynnig.

Cynhaliwyd pleidlais ar y newid a:

***PENDERFYNWYD bod:***
*Y Cyngor yn rhoi cyfarwyddyd y dylai swyddogion ddatblygu adroddiad manwl i'r Cabinet ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Medi ynglŷn â faint o angen oedd yna am gynnyrch glanweithiol merched am ddim mewn ysgolion a'r costau i gynnwys y drafodaeth gyda'r gwneuthurwyr perthnasol ynglŷn â'r gefnogaeth y gallent ei chynnig.*

## 12 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Paul Penlington y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar y Cabinet i beidio ag adnewyddu contract Kingdom Security ym mis Tachwedd 2018 ac yn galw ar y Cabinet i gyfarwyddo swyddogion CSDd i ddod â phapur i gyfarfod y Cyngor ym mis Medi yn amlinellu'r dewisiadau ar gyfer darparu gwasanaeth tebyg gan ddefnyddio staff ac adnoddau eu hunain, ac yn canolbwyntio mwy ar addysg a chefnogi'r cyhoedd yn hytrach na'u cosbi."

Eiliodd y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Paul Penlington.

Cynhaliwyd trafodaeth fanwl a dywedwyd y byddai cynrychiolwyr Kingdom yn bresennol yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 7 Mehefin 2018.

Awgrymodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts newid gan nad oedd y mater yn un i'r Cyngor ond yn un i'r Pwyllgor Gweithredol ei ystyried.  Felly y newid a

awgrymwyd oedd bod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu ddarparu adroddiad i'r Cabinet ar ddarpariaeth a gwaith Kingdom, ac yna gall y Cabinet wneud penderfyniad ar hynny ym mis Tachwedd.

Roedd y Cynghorydd Andrew Thomas yn eilio'r newid.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y byddai mwy o wybodaeth a ffigurau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Mehefin ac yna byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol.

Cynhaliwyd pleidlais ar gyfer newid i'r Rhybudd o Gynnig a gymeradwy-wyd ac felly, daeth yn brif gynnig.

Yna cynhaliwyd pleidlais ar y prif gynnig a chymeradwywyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu ddarparu adroddiad i'r Cabinet ar ôl iddynt ystyried perfformiad Kingdom ar 7 Mehefin gydag argymhelliad ar gyfer darpariaeth ar gyfer y dyfodol.*

## 13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Cadarnhawyd y byddai'r eitem Cynnig Twf Rhanbarthol yn cael ei ychwanegu at raglen y cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2018.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.05pm.**